1550/64.

LLYTHYR

oddiwrth

GYMMANFA

o

WEINIDOGION,

A gyfarfuant yn y BALA, yn Sir FEIRIONITH,

MAI, 29, a'r 30, 1793.

At EGLWYSI yr YMNEILLTUWYR PROTESTANAIDD yn NGHYNMRU, a elwir yn gyffredin, INDEPENDIAID.

Phil. i. 2. *Gras i chwi, a thangnefedd oddiwrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.*

TREFECCA:

ARGRAPHWYD YN Y FLWYDDYN

M.DCC.XCIII.

LLYTHYR, &c.

FRODYR a Chwiorydd anwyl, pa rai ſydd wedi dyfod yn ddilynwyr i ni ac i'r Arglwydd; gan i Dduw o'i fawr ddaioni a'i ras, ganiattau i ni y rhagorfraint o gyfarfod mor gyſſurus mewn Cymmanfa flynyddol drachefn unwaith, ni a farnaſom yn addas i ddanfon y Llythyr hwn attoch fel arwydd o'n gofal am eich eneidiau. Fel Gweinidogion anheilwng, ſe welodd Duw'n dda i roddi ei braidd, pa rai a brynwyd â gwerthfawr waed Criſt, tan ein gofal, am ba rai y bydd yn rhaid i ni roddi cyfrif cyn bo hir, yn y farn; gan hynny yr ydym yn chwennych arfer pob moddion i'ch cadw rhag y Llew rhuadwy, a'r llid a ſydd; canys beth yw ein gobaith ni, neu ein llawenydd, neu goron ein gorfoledd, onid chwy-chwi, ger bron ein Harglwydd Ieſu Criſt, yn ei ddyfodiad ef? Canys chwy-chwi yw ein gogoniant a'n llawenydd ni.

Criſtnogion anwyl, Yn ofn yr Arglwydd yr ydym yn attolygu arnoch i broſi eich hunain, a oes gennych Grefydd ag ſydd yn rhoddi gogoniant i Dduw mewn bywyd, ac a'ch dwg chwithau yn ddiangol i lawenydd y nef? I'r diben o gael y fath grefydd a buddugoliaeth ar eich gelynion, byddwch ofalus yn gyntaf, rhag cyfeiliorni mewn barn am fawrion Athrawiaethau'r Efengyl. Mae rhai yn meddwl nad oes dim perygl mewn barn gyfeiliornus, os bydd dyn yn myned yn ol ei gydwybod, ac yn oneſt yn ei ymarweddiad;—ond na atto Duw i neb o honoch i gredu'r fath athrawiaeth. Gellwch weled fod *Saul* o *Tarſis*, yn gwneud matter cydwybod o erlid Criſt a'i bobl, etto nid oedd ei waith ef yn *meddwl* ei fod ar y iawn ffordd, na'i *sél* dros ogoniant Duw *Iſrael*, yn

yn ei wneud ef yn ddieuog ger bron yr Arglwydd. Mae'r ysgrythurau yn aml iawn yn rhoddi gochel-iad i'r Saint yn erbyn gau-athrawon, ac athrawiaeth-au cyfeiliornus, yr hyn sydd yn profi eu bod yn ni-weidiol i eneidiau dynion, ac yn ddianrhydedd i Dduw.

Yr oedd gwirioneddau mawrion yr Efengyl yn ymddangos yn werthfawr iawn i'r merthyron duwiol o oes i oes, gan eu bod yn dewis dioddef adfyd, a myned trwy yr afon goch o waed i'r bywyd tragy-wyddol, yn hytrach na'i gwadu. O gan hynny, edrychwch eich bod wedi eich adeiladu ar sail yr Apostolion a'r Prophwydi, a daliwch gyffes eich gobaith yn ddisigl yn yr amseroedd hyn, pan y mae llawer yn ymado oddi wrth y ffydd, gan roddi coel i ysprydion cyfeiliornus ac athrawiaethau cythreul-iaid. I'r diben o adnabod y gwirionedd; gochel-wch ymorphwys yn ormodol ar opiniwn un dyn neu *Sect* o ddynion; ond gwnewch Air Duw eich unig gyfarwyddwr yn y matter hwn.—Pan ddeloch i ddarllen yr ysgrythurau, gwrandewch yn barchus ac yn ddiragfarn beth a *ddywed* yr Arglwydd, heb ryfygu gosod eich rhesymmau eich hunain ar y faingc i farnu beth y *ddylai* Duw ei lafaru. Myfyriwch lawer yn y Datguddiad o ewyllys Duw; a gweddi-wch am gyfarwyddyd yr Yspryd Glân, i'ch tywys i bob gwirionedd.

Galarus meddwl am y bobl a wadant agos bob peth ag sydd uwchlaw cyrhaeddiad rheswm, heb ddwysol ddatguddiad. Cofiwch, pe ni buasai Duw wedi amlygu un dirgelwch yn ei air, ni fuasai ein Biblau o fawr werth i ni; ond gan fod dwysol ddatguddiad wedi gwneud yn eglur athrawiaethau ac oedd ym-mhell uwchlaw ein deall naturiol, neu ynte wedi eu hamlygu yn brin trwy oleu natur; mae gennym oll achos mawr i foliannu'r Arglwydd am ei ddaioni, ac i werthfawrogi yr Ysgrythurau sanctaidd. Tru-eni meddwl fod rhai sydd yn darllen y Testament

Newydd yn gwadu athrawiaeth y Drindod, Duwdod Criſt a'i haeddiant;— adenedigaeth trwy waith Yſpryd Duw, &c. canys nid oes dim amlygach yn nghair Duw na'r cyfryw wirioneddau. Cadwed yr Arglwydd chwi yn y gwir. Mae rhai yn ein dyddiau yn ofni rhoddi Dwyfol addoliad i Ieſu Griſt, rhag iddynt ei ddyrchafu yn rhŷ uchel; ond os yſtyriwn ei ddwyfol natur; a'r hyn a wnaeth ef dros bechaduriaid; ac i fod angylion a ſeintiau ar orchymyn y Tad wedi rhoddi addoliad iddo ef yn mhob oes; oſnwch nid eich bod yn rhoddi *gormod* o anrhydedd i'r anwyl lachawdwr, ond *rhŷ fach* o anrhydedd a chlod i'w enw mawr.

II. Ceiſiwch nerth o'r neſoedd i ddioddef cyſtudd fel milwyr da i Ieſu Griſt. Mae'n amlwg iawn mai ffordd y groes yw ffordd y bywyd; canys os myn neb fyw'n dduwiol yn Nghriſt Ieſu, efe a erlidir. Yr ydym yn byw mewn amſeroedd enbyd; ac y mae llaweroedd yn eu hanwybodaeth, a'u sêl dros ddynol draddodiadau yn cyhoeddi mai'r *Diſſinters* ſydd yn aflonyddu'r byd; a'n bod yn elynion i'n Brenin a'r Llywodraeth. Yr un modd y dywedodd yr Iuddewon ac eraill am Griſt a'i Apoſtolion; am hynny na ryſeddwn fod y byd yn ein caſsâu, gan fod Criſt ei hun wedi cael ei wawdio, ei erlid, a'i roddi i farwolaeth fel un ag oedd am fyned â'r goron oddi ar ben *Ceſar*. O frodyr, yr ydym yn attolwg arnoch, trwy eich ymddygiadau efangylaidd tu ag at Dduw a dynion, i ddangos i bawb nad yw y grefydd y'm ni'n broffeſu yn niweidiol i wlad nac Eglwys, i Frenin na Deiliaid. Hyd ag y mae ynoch dilynwch heddwch â phawb, gan yſtyried mai deiliaid Criſt ydych, yr hwn a elwir Tywyſog heddwch. Cofiwch nad yw teyrnas Criſt o'r byd hwn, a'ch bod chwithau fel dieithriaid a phererinion yn ceiſio gwlad well, am hynny na ddiſgwyliwch gael pob peth wrth eich bodd dan yr haul. Ni wyddom ni fawr am groeſau mewn cymmariaeth i'r hên ſerthyron duwiol, pa rai a

garchar-

garcharwyd ac a loſgwyd am broffeſu'r un athrawiaethau ag y mae *Diſſenters* yr oes hon yn broffeſu; etto cofiwch hyn, frodyr anwyl, fod y Duw a'u daliodd hwy i'r lan, yn abl i'n dwyn ninnau'n ddiogel trwy bob cyfyngder. O pwyſwch ar yr Ieſu, a chwi a orchfygwch trwy waed ei groes eſ, a gair y dyſtiolaeth, doed a ddelo i'ch cyfarfod.

III. Gwiliwch yn fanol a gweddiwch yn daer na b'och yn ofid ac yn wan-galondid i weinidogion yr Arglwydd, pa rai ſydd yn llafurio yn eich plith. O frodyr, gweddiwch droſom, ar i air Duw redeg a chael gogonedd. nid oes neb ond Duw a wyr pa faint ſydd yn gwaſgu ar galonnau gweinidogion y gair; O gan hynny byddwch fel Aaron a Hur, yn cynnal eu breichiau hwynt yn y frwydyr, heb ddyrchafu un yn ormod, na ſathru neb dan draed: canys cyd-weithwyr Duw ydym ni. Na ddiſgwyliwch iddynt dderbyn wyneb neb, er mwyn budd, fel boddlonwyr dynion; canys os felly, ni's gallant fod yn weiſion i Griſt. Ni ofynnir gennym ond bod yn ffyddlon; ac os na fydd y gwirionedd yn llwyddo yn ngenau un o ffyddlon weinidogion Ieſu, na ddigied neb wrth y Pregethwr, ond edryched pob gwrandawr atto ei hun; canys mae achos pryd hynny i ofni fod rhyw bechod fel *Acan* yn y fyddin, yn achos i Dduw guddio ei wyneb, ac attal ei fendith.

IV. Cofiwch fod y farn yn neſau, pan fyddo rhaid i bob un o honoch roddi cyfrif am bob Talent a dderbyniaſoch gan yr Arglwydd. O bydded i'r yſtyriaeth o hyn i'ch deffroi i adnabod eich lle yn Eglwys Dduw, ac i ymofyn pa gyfleuſderau a chymmwyſiadau a gawſoch yn rhagluniaethol neu'n raſol i ddwyn ym mlaen achos a gogoniant Duw yn y byd, a daioni eich cyd-greaduriaid. Mae proffeſwyr diffrwyth fel y pren diffrwyth yn y winllan, *Luc* xiii. yn ddianrhydedd i Dduw, ac yn achos o fawr alar i Eglwys Criſt; am hynny edryched pawb pa fawl Talent a dderbyniodd, a pha beth mae'n wneuthur â hwynt.

â hwynt. Galarus yw meddwl fod llawer o broffeſwyr, yn helaeth eu cyfranniadau at, ac yn ddiwyd yn nghylch achoſion y byd ar bywyd hwn, ac yn brin eu rhoddion at achos Duw, ac yn ddiog yn nghylch y pethau a berthynant i iechydwriaeth yr enaid, a gogoniant yr Arglwydd.

O frodyr, yr ydym yn attolygu arnoch i lafurio mwy am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol, nag am ddim ſy'n darfod. Mae llawer o honoch yn heneiddio, a theuluoedd dan eich gofal; O gwnewch eich goreu i liſtio y cyfryw dan faner Criſt, fel b'o gennych ſail i obeithio pan f'o chwi yn marw, na b'o dim o achos Duw yn marw gyd â chwi. O mor alarus fydd meddwl yn awr angeu am eich plant, eich gwaſanaeth-ddynion ac eraill, eu bod ar y ffordd lydan tu ag uffern, a chwithau'n marw dan euogrwydd, a'u gwaed hwynt fel yn gwaeddi yn eich herbyn! O ymdrechwch trwy gyngor, cerydd, eſamplau a gweddiau fod yn foddion i ragflaenu damnedigaeth eich cyd-greaduriaid. Edrychwch am gynnal i fynu grefydd deuluedd; a gwnewch gydwybod o rodio yn Eglwys Dduw, ac yn achoſion y byd fel plant y goleuni, fel y gwelo eraill eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd. Wedi gwneuthur y cwbl, dywedwch, Gweiſion anfuddiol ydym ni; a phwyſwch yn gwbl ar haeddiant Criſt am gyflawnhad eich eneidiau, yr hwn yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un ſydd yn credu. I'r hwn y bo'r gogoniant yn oes oeſoedd, Amen.

Ychydig o hanes ein crefyddol addoliad yn y Gymmanfa.

GAN gredu na ddichon neb rhyw ddoniau na chyflawniadau crefyddol wneuthur dim llês heb fendith Duw, fe gyttunodd yr Eglwys i gyfarfod prydnhawn ddydd Llun, i ymbil ar yr Arglwydd i roddi ei breſennoldeb yn y Gymmanfa, a llwyddiant

iant ar y weinidogaeth yn y dyddiau canlynol. A chwedi i weinidog a phobl dreulio rhyw faint o amſer mewn gweddi ac ymoſtyngiad ger bron Duw, ſe bregethodd y Parch. *Morgan Jones* o *Drelech*, a'r Brawd *D. Lloyd*; y cyntaf oddi wrth *Rhuf.* viii. 32. a'r ail oddi wrth *Actau* ii. 37. Cyfarfuwyd drachefn prydnhawn ddydd Mawrth; a chwedi ymoſtwng mewn gweddi, a threulio rhyw amſer mewn mawl i'r Arglwydd, ſe bregethodd y Parch. *Phillip Morris*, a'r Parch. *Richard Tibbot*, oddi wrth *Titus* ii. 11, 12. a *Phil.* iii. 8, 9. Dechreuodd yr odfa ddydd Mercher, am ddau o'r gloch; ac ar ol treulio ychydig amſer mewn mawl a gweddi; pregethodd Mr. *Skeel* o Sir *Benfro*, oddi wrth *Heb.* iv. 14. a'r Parch. D. *Morgans* o *Eſgerdawe* oddi wrth *Math.* xii. 41. Cyfarfuwyd drachefn am chweech o'r gloch, a phregethodd y Parch. *Thos. Daſydd*, *Panteg*, oddi wrth 2 *Cor.* iv. 5. a'r Parch. *H. Jones* o *Frynberian*. Dechreuodd y cyfarfod ddydd Iau, am chweech o'r gloch y bore; ac ar ol gweddiau a mawl, ſe bregethodd y Parch. Mr. *Phillips* o *Drwyddel*, oddi wrth 1 *Theſ.* v. 8. a'r Parch *D. Davies* o'r *Drefach*, oddi wrth *Luc* xv. 22. Wedi i'r Gweinidogion dreulio rhyw faint o amſer mewn cyfrinach neillduol, ac ymddiddan ynghylch achoſion eglwyſig, cyfarfuwyd drachefn am ddeg o'r gloch; a phregethodd y Parch. *D. Davies* o *Llanybri*, oddi wrth *Ioan* xxi. 22. a'r Parch. *Thos. Thomas*, *Pentretygwyn*, oddi wrth *Phil.* i. 6. Cyfarfuwyd am dri o'r gloch brydnhawn; a phregethodd y Parch. *J. Richards*, oddi wrth 1 *Pedr* i. 22. a'r Parch. *Jonathan Powell* o *Raiadr*, oddi wrth *Eſa.* xlv. 14. Bu drachefn odfa am ſaith o'r gloch; a phregethodd y Parch. *Ebenezer Skeel*, a'r Parch. *J. Griffiths* o'r *Fenni*, yn Saeſonaeg oddi wrth *Gal.* ii. 19. *Eſay* i. 18.

Chwi a welwch fod ein dyſgleidiau yn aml, a diolch i Dduw nid oeddyne yn ddiffas.——Mae creſydd yn llwyddo yn ein plith, a llawer wedi chwanegu at yr

Eglwyſi

Eglwyſi y flwyddyn hon; ond nid oedd Gweinidogion yn gallel rhoddi cyſtal newyddion y leni, ac oeddynt yn roddi y llynedd.—Gweddied pob Eglwys yn daer am ddiwygiad, a llwyddiant; ſel b'o hanes mwy cyſurus mewn amſer i ddyſod.

Mae'r Gymmanfa neſaf yn y *Neuadd-lwyd*, yn Sir *Aberteifi*, yr ail Fercher a Iau ar ol y Sulgwyn. Yr ydys yn diſgwyl i'r Parch. *Wm. Thomas*, o'r *Bala*, a'r Parch. *H. Powell*, o'r *Caſnewydd*, i bregethu ddydd Mercher; y Parch. *A. Tibbot*, o *Sir Fôn*, a'r Parch. *Thos. Bowen*, o *Faes-yr-onnen*, ddydd Iau.

HYMN.

1 O Pa mor ſelus ydyw'r fraint,
Cael bod ynghymmynf'o'dd y Saint!
Gwledd gyd â rhai'n i'm henaid câf,
O baſgedigion breiſion brâf.

2 O f' enaid prudd mae'r dydd yn dod,
Cai'n un â'r rhai ſydd uwch y rhod,
I foli Duw; a byw'n eu plith,
Heb un rhyw boen, na 'mad el byth.—

Y mae Mr. *W. T.* o'r *Bala* yn bwriadu cyhoeddi Llyfr bychan, wedi gaſglu allan o waith *J. Guyſe*, D. D. a *W. Gurnal*, oddi wrth *Epheſ.* vi. 18, 19. a'r *Theſ.* v. 25. Y Llyfran hwn a gynnwya fraint a dyledſwydd yr Eglwyſi i weddio droſtynt eu hunain a'u Athrawon.

Diſgwylir i'r ſawl a fo'n dewis ei bwrcaſu, anfon eu henwau ar frys i'r Perſonau canlynol, ſef, at y Parch. *W. T.*, *Bala*; y Parch. *M. Jones*, *Trelech*; y Parch. *T. Thomas*, *Pentre-Ty-gwynn*, a'r Parch. *D. Thos. Pen-main*.

Ni bydd y Llyfran uchod oddi ar chwe' cheiniog o bris—ac ni bu yn Gynmraeg erioed o'r blaen.